

Rhif: WG25080



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru)

Llywodraeth Cymru

## Crynodeb o'r Ymgynghoriad

Rheoliadau a Chod Ymarfer mewn  
Perthynas â Rhannau 4 (Taliadau Uniongyrchol  
a Dewis o Lety) a 5 (Asesiadau Ariannol a Chodi  
Ffioedd) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol  
a Llesiant (Cymru) 2014

# **Rheoliadau a Chod Ymarfer mewn Perthynas â Rhannau 4 (Taliadau Uniongyrchol a Dewis o Lety) a 5 (Asesiadau Ariannol a Chodi Ffioedd) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014-Crynodeb o'r Ymgynghoriad**

<b><u>Cynnwys</u></b>	<b>Tudalen</b>
<b><u>Adran 1</u></b>	<b>2</b>
<b>Cyflwyniad</b>	<b>2</b>
<b>Cefndir</b>	<b>2</b>
<b>Y dystiolaeth ar gyfer newid</b>	<b>3</b>
<b>Y cynnig</b>	<b>4</b>
<b>Digwyddiadau Ymgynghori</b>	<b>6</b>
<b>Ymatebion i'r Ymgynghoriad</b>	<b>7</b>
<b><u>Adran 2</u></b>	<b>7</b>
<b>Ymateb i Gwestiynau'r Ymgynghoriad</b>	<b>7</b>
<b>Dadansoddiad ac Ymateb Llywodraeth Cymru</b>	<b>7</b>
<b>Atodiad A – Rhestr o'r Ymatebwyr</b>	<b>22</b>

## Adran 1

### Cyflwyniad

Cafodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("y Ddeddf") Gydsyniad Brenhinol ar 1 Mai 2014. Mae'r Ddeddf yn sail i'r fframwaith statudol newydd ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer rheoliadau a chod ymarfer mewn perthynas â Rhannau 4 (pennu cyfraniad neu ad-daliad ar gyfer taliadau uniongyrchol a dewis o lety) a 5 (codi ffioedd ac asesiadau ariannol) o'r Ddeddf. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 8 Mai a 31 Gorffennaf 2015.

Cafodd y ddogfen ymgynghori ei gosod ar wefan Llywodraeth Cymru a chafodd ystod o fudiadau a sefydliadau sy'n cynrychioli plant, gofalwyr, pobl hŷn a phobl anabl eu hysbysu ynghylch hyn. Hefyd, fe'i dosbarthwyd i'r canlynol:

- *Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru*
- *Swyddogion Codi Ffioedd Awdurdodau Lleol*
- *Y Comisiynydd Plant*
- *Y Comisiynydd Pobl Hŷn*
- *Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru*
- *Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol*
- *Rhwydwaith Gwella Sefydliadau Diogel*
- *Pwyllgor Meddygol Cymru*
- *Coleg y Therapyddion Galwedigaethol*
- *Cyngor Gofal Cymru*
- *Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain (BASW) Cymru*

Cafwyd cyfanswm o 61 o ymatebion. Atodir rhestr o dderbynwyr yn Atodiad A. Ceir crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ynghyd â dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r rhain yn Adran 2.

### Cefndir

Mae Gweinidogion Cymru wedi egluro eu bod yn dymuno i elfennau craidd y fframwaith statudol newydd fod yn eu lle ar gyfer 6 Ebrill 2016, pan fydd y Ddeddf yn cael ei rhoi ar waith.

Bydd y fframwaith statudol yn cynnwys tair prif elfen; y Ddeddf ei hun, rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, a chodau ymarfer/canllawiau statudol. Mae'r tair elfen hyn yn gweithio gyda'i gilydd i ffurfio'r fframwaith y bydd gwasanaethau cymdeithasol yn gweithredu ynddo o 6 Ebrill 2016.

Cafodd yr ymgynghoriad ar y Rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan y Ddeddf a'r broses o'u gosod gerbron y Cynulliad eu cynnal mewn dwy gyfres yn bennaf. Roedd yr ymgynghoriad arbennig hwn yn rhan o'r ail gyfres. Cafodd rheoliadau a oedd yn rhan o'r ymgynghoriad ar yr ail gyfres eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 3 Tachwedd 2015 er mwyn rhoi cymaint o amser â phosibl i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol addasu i'r gofynion newydd sy'n deillio o'r rhain cyn iddynt gael eu rhoi ar waith ym mis Ebrill 2016.

## **Y dystiolaeth ar gyfer newid**

Mae gwasanaethau cymdeithasol yn ganolog i fywyd cyhoeddus Cymru. Caiff 150,000 o bobl ifanc, pobl hŷn a phobl anabl gymorth ganddynt bob blwyddyn i gyflawni eu potensial ac i'w helpu i fod yn ddiogel. Darperir llawer o'r gwasanaethau hyn mewn partneriaeth ag eraill, gan gynnwys gwasanaethau tai, iechyd ac addysg. Mae'r gymdeithas yn newid a rhaid i wasanaethau cymdeithasol newid mewn ymateb i hyn. Bu newid yn nisgwyliaidau'r cyhoedd o wasanaethau cymdeithasol a bydd hyn yn parhau, o ganlyniad i newid demograffig a newidiadau yn ein cymdeithas. Mae angen i wasanaethau cymdeithasol addasu ac ymateb i bob un o'r rhain.

At hynny, mae'r galw yn cynyddu ar draws gwasanaethau cymdeithasol, ond mae'r rhagolwg ariannol ar gyfer yr holl wasanaethau cyhoeddus yn un anodd. Er ein bod wedi diogelu gwariant ar wasanaethau cymdeithasol, mae angen inni wneud newid mwy sylfaenol na dim ond mynd ar drywydd y mesurau effeithlonrwydd amlwg er mwyn inni sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol yn gynaliadwy. Mae ein Papur Gwyn *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu* yn nodi rhaglen o newid i ateb yr heriau hyn yn seiliedig ar y naw egwyddor ganlynol:

- Llais cadarn a rheolaeth go iawn
- Cefnogi ein gilydd
- Diogelwch
- Parch
- Adfer ac ailsefydlu
- Addasu i amgylchiadau newydd
- Sefydlogrwydd
- Symlwrwydd
- Proffesiynoldeb

Mae'r rhain wedi eu llywio gan drafodaethau gyda rhanddeiliaid a dadleuon yn y Cynulliad Cenedlaethol ac mewn mannau eraill ers i *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru* gael ei gyhoeddi. Maent yn bodoli ochr yn ochr â thystiolaeth y Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru, adolygiad

Comisiwn y Gyfraith o ddeddfwriaeth gofal cymdeithasol i oedolion<sup>1</sup> a'n Hadolygiad o Ddiogelu<sup>2</sup>. Mae'r cyfan yn asgwrn cefn i'n hachos dros newid.

Mae'r dystiolaeth hon, a'r broses o'i hystyried drwy broses graffu'r Cynulliad Cenedlaethol ar y Bil, wedi llywio a llunio cynnwys y Ddeddf. Mae'r cam nesaf, datblygu'r rheoliadau a'r codau ymarfer neu'r canllawiau statudol, wedi ei lywio gan gyfraniadau strategol allweddol fel "*Mwy na Geiriau*" (ein Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol<sup>3</sup>), prosiect "*Galluogi Cymru*" (sy'n cynorthwyo'n uniongyrchol y broses o gyflawni a gweithredu "*Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol*" Llywodraeth Cymru) a chan dystiolaeth a gafwyd drwy grwpiau technegol a oedd yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol. Mae'r grwpiau hyn wedi edrych ar ddarpariaethau'r Ddeddf, a'r polisi sy'n sail i'r rhain, yn fanwl, a rhoi cyngor i swyddogion ar sut y dylai'r rheoliadau a'r codau ymarfer gael eu llunio er mwyn cyflawni nodau'r Ddeddf a, thrwy hyn, gyflawni gofynion "*Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy: Fframwaith Gweithredu*". Mae'r broses hon wedi sicrhau amrywiaeth o gyfraniadau gwerthfawr y mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi eu defnyddio i ddatblygu'r rheoliadau drafft a'r cod ymarfer drafft yr ymgynghorwyd yn eu cylch.

## Y cynnig

### Trosolwg

Mae adrannau 50-53 (taliadau uniongyrchol) ac adran 57 (dewis o lety) o Ran 4 o'r Ddeddf, a Rhan 5 o'r Ddeddf (codi ffioedd ac asesiadau ariannol), yn ymwneud â sefyllfaoedd lle gellir codi ffi mewn perthynas â gofal a chymorth a ddarperir o dan y Ddeddf. Mae Rhan 5 yn rhoi'r disgrisiwn i awdurdodau lleol godi ffi ar berson am ofal a chymorth a ddarperir (neu gymorth a ddarperir ar gyfer gofalwr) pan fo gan y person dan sylw y modd ariannol i dalu ffi o'r fath. Mae hyn yn cynnwys darparu gofal cartref a gofal a chymorth arall yn y gymuned, gofal a chymorth preswyl, gwasanaethau ataliol a chynhorthwy. Mae adrannau 50-53 o Ran 4 yn rhoi disgrisiwn tebyg i bennu cyfraniad neu ad-daliad ar gyfer taliadau uniongyrchol, lle mae anghenion o ran gofal a chymorth yn cael eu diwallu trwy ddarparu'r rhain. Ni all awdurdod lleol bennu ffi, cyfraniad neu ad-daliad sy'n fwy na chost y gofal a'r gymorth a ddarperir neu a drefnir ac mae'n rhaid iddo fod wedi'i sicrhau bod gan y person y codir y rhain arno'r modd ariannol i'w talu. Mae adran 57 o Ran 4 hefyd yn amodi, lle mae person mewn gofal preswyl, y gall yr awdurdod lleol drefnu llety y mae ei gost yn uwch na chost y llety y byddai'n ei ddarparu fel arfer os yw person yn barod i dalu'r gwahaniaeth yn y gost.

---

<sup>1</sup> <http://lawcommission.justice.gov.uk/areas/adult-social-care.htm>

<sup>2</sup> <http://wales.gov.uk/topics/health/publications/socialcare/reports/advisory/?lang=cy>

<sup>3</sup> <http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/guidance/words/?lang=cy>

#### Rhan 4 – Taliadau Uniongyrchol

Mae adrannau 50-53 o'r Ddeddf yn parhau â gallu awdurdod lleol i ddarparu taliadau uniongyrchol i ddiwallu anghenion person am ofal a chymorth, neu yn achos gofalwr, cymorth, lle mae'r person yn dymuno arfer dewis o ran y ffordd y caiff yr anghenion hyn eu diwallu. Mae'r adrannau hyn hefyd yn parhau â'r disgresiwn sydd gan awdurdodau lleol i bennu cyfraniad, neu ad-daliad, ar gyfer y taliadau uniongyrchol a ddarperir. Mae'r rhain yn cyfateb i'r ffi a godir am y gofal a'r cymorth a ddarperir trwy'r taliadau uniongyrchol. O ganlyniad mae'r rheoliadau a'r cod ymarfer drafft mewn perthynas â chodi ffioedd ac asesiadau ariannol yn cynnwys darpariaethau sy'n rhoi'r disgresiwn i awdurdodau lleol bennu cyfraniadau neu ad-daliadau o'r fath, lle mae gan dderbynyddion taliadau uniongyrchol y modd ariannol i dalu'r rhain, i'w rhoi ar yr un tir â'r rhai y gellir codi arnynt am y gofal a'r cymorth y maent yn ei gael yn uniongyrchol gan eu hawdurdod.

#### Rhan 4 – Dewis o Lety

Bydd Adran 57 o'r Ddeddf yn disodli deddfwriaeth gyfredol sy'n galluogi person ac arno angen llety preswyl i ddiwallu ei anghenion o ran gofal a chymorth i fynegi ei fod yn ffafrio llety penodol. O ganlyniad, lle mae awdurdod lleol yn gyfrifol am leoli person mewn llety o'r fath, mae'n rhaid i'r person hwnnw allu arfer dewis dros y llety hwn cyn belled â bod y llety y mae'n ei ffafrio yn llety o'r un math ac yn gallu diwallu ei anghenion o ran gofal a chymorth yn llawn. Lle mae cost y llety y mae person yn ei ffafrio'n uwch na'r gost y byddai ei awdurdod yn ei thalu fel arfer am lety o'r fath, gall y person dan sylw neu drydydd parti, megis aelod o'r teulu, dalu'r gost ychwanegol hon. Mae'r rheoliadau drafft a wneir o dan adran 57, a'r cod ymarfer drafft ar y dewis o lety, wedi'u bwriadu i alluogi'r sefyllfa hon i barhau er mwyn cynnal dewis y rhai sy'n mynd i mewn i ofal preswyl o ran y llety a ddarperir.

#### Rhan 5 – Codi Ffioedd ac Asesiadau Ariannol

Bydd Rhan 5 o'r Ddeddf yn disodli deddfwriaeth gyfredol sy'n rhoi disgresiwn i awdurdodau lleol bennu ffi am y gofal a chymorth dibreswyl a ddarperir neu a drefnir ganddynt, ac yn creu dyletswydd i godi ffi am y gofal preswyl a'r llety a ddarperir neu a drefnir ganddynt. Bydd yn egluro pwerau codi ffioedd o'r fath gan roi disgresiwn cyffredinol i godi am ofal a chymorth, pa un a yw'n ofal a chymorth dibreswyl a ddarperir yn y gymuned ynteu'n ofal preswyl a ddarperir mewn cartref gofal.

Felly bydd y rheoliadau a'r cod ymarfer drafft o dan Ran 5 yn:

- cyflwyno un set o drefniadau asesu ariannol yn hytrach na'r trefniadau gwahanol ar gyfer codi ffioedd am ofal a chymorth preswyl a dibreswyl sy'n bodoli ar hyn o bryd;
- cynnal o fewn y rhain yr uchafswm ffi wythnosol a'r "byffer" sy'n bodoli ar hyn o bryd ar gyfer gofal a chymorth dibreswyl, yn ogystal â'r terfyn cyfredol o £24,000 ar adnoddau cyfalaf a ddefnyddir wrth ddyfarnu pwy sy'n talu cost lawn eu gofal preswyl eu hunain;
- cynnal yr unigolion, neu'r mathau o ofal a chymorth, na ellir codi ffioedd arnynt ar hyn o bryd e.e. cynnal asesiad ariannol;

- darparu ar gyfer y gallu i awdurdod lleol godi ffi isel yn ôl cyfradd unfurf am wasanaethau ataliol neu gynhorthwy a ddarperir (nid yw'r Ddeddf yn caniatáu codi ffi am ddarparu gwybodaeth neu gyngor);
- cyflwyno mwy o dryloywder wrth godi ffioedd trwy ymestyn y gofyniad bod pawb y codir ffi arnynt am ofal a chymorth dibreswyl yn cael datganiad sy'n manylu ar y ffi a'r modd y cafodd ei chyfrifo, i'r rhai y codir ffi arnynt am eu gofal a chymorth preswyl hefyd.

### Rhan 5 - Taliadau Gohiriedig

O dan ddeddfwriaeth bresennol, gall y rhai sy'n mynd i mewn i lety preswyl, ac sydd ag eiddo sy'n wag ac felly'n cael ei gymryd i ystyriaeth yn eu hasesiad ariannol, ohirio'r angen i werthu neu oedi cyn gwerthu eu heiddo i dalu eu costau. Yn lle hynny, mae cost eu gofal preswyl yn cael ei thalu gan eu hawdurdod lleol gyda gwerth hyn yn cael ei osod yn erbyn gwerth eu heiddo trwy osod pridiant tir arno. Mae hyn yn cynnig y cyfle i berson fod yn hyblyg ynghylch gwerthu ei eiddo ar unwaith pan fo'n mynd i mewn i lety gofal neu oedi cyn gwerthu er mwyn gwerthu ar adeg sy'n fwy priodol i'r person.

Mae adran 68 o'r Ddeddf yn parhau i roi'r gallu i'r rhai sy'n mynd i mewn i lety gofal preswyl wneud hyn os ydynt yn dymuno. Mae'r rheoliadau a'r cod ymarfer drafft ar daliadau gohiriedig yn galluogi hyn ond yn cyflwyno mwy o gysondeb o ran y modd y cânt eu gweithredu gan awdurdodau lleol. Hefyd, o ystyried hyd posibl y cyfnod y gallai awdurdodau fod yn talu costau gofal preswyl ar ran preswlydd cyn eu bod yn gallu adennill y costau hyn pan fo'r eiddo'n cael ei werthu, maent hefyd yn darparu'r gallu i'r awdurdod lleol godi lefel isel o log ar gostau gofal a dalwyd yn ystod cyfnod y gohiriad.

### Rhan 5 – Adolygu Ffioedd

O dan ddeddfwriaeth bresennol gall y rhai y codir ffioedd arnynt am ofal a chymorth dibreswyl gael mynediad at broses adolygu i gywiro gwallau, i herio ffioedd a godwyd yn amhriodol neu i nodi sefyllfaoedd lle byddai talu ffi yn achosi caledi ariannol iddynt. Mae adran 73 o'r Ddeddf yn caniatáu gwneud rheoliadau i barhau â'r trefniant hwn.

Mae'r rheoliadau a'r cod ymarfer drafft mewn perthynas ag adolygiadau o'r fath yn gwneud hyn, ond yn bwysig maent yn ymestyn y broses adolygu i ffioedd a godir am ofal a chymorth preswyl. Y rheswm dros hyn yw er mwyn rhoi hawl i adolygiad i'r rhai sydd wedi bod yn ddarostyngedig i ddyfarniad ynghylch eu gallu i dalu ac i'w galluogi i ofyn i'r awdurdod lleol ailystyried y penderfyniad.

### **Digwyddiadau Ymgynghori**

Cynhaliwyd dau ddigwyddiad ymgynghori fel rhan o'r broses ymgynghori. Diben y rhain oedd:

- hyrwyddo ymgysylltu â'r ymgynghoriad;

- darparu lefel sylfaenol o ddealltwriaeth am y meysydd yr oeddem yn ymgynghori arnynt i grwpiau o randdeiliaid allweddol.

Gofynnwyd i'r rhai a oedd yn bresennol gymryd rhan mewn trafodaethau ar roi'r rheoliadau ar waith, a hefyd rhannu gwybodaeth o'r digwyddiadau â'u rhwydweithiau ehangach i ysgogi ymgysylltu dyfnach â'r cynigion a rhychwant ehangach o ymatebion i'r ymgynghoriad.

Cynhaliwyd y digwyddiad cyntaf ar 21 Mai 2015 yng Ngwesty St George, Llandudno. Cynhaliwyd yr ail ar 4 Mehefin 2015 yn Stadiwm Liberty, Abertawe. Roedd 200 o bobl yn bresennol ar y cyfan, a hwythau'n cynrychioli ystod o sefydliadau. Roedd yr amrwiaeth o randdeiliaid yn cynnwys cynrychiolaeth gan y canlynol:

- |   |  |
|---|--|
| • Cynghrair Pobl Hŷn Cymru                            | • Awdurdodau Lleol   |
| • Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain                      | • Byrddau Iechyd Lleol   |
| • Cyngor Gofal Cymru                                  | • Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru                            |
| • Plant yng Nghymru                                   | • Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall Cymru            |
| • Coleg y Therapyddion Galwedigaethol                 | • Iechyd Cyhoeddus Cymru                                       |
| • Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru | • Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn                               |
| • Anabledd Cymru                                      | • Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Cymru |
| • Anabledd Dysgu Cymru                                |  |

Cynhaliwyd gweithdai yn y digwyddiadau ar bob Rhan o'r Ddeddf yr oeddem yn ymgynghori arni yng nghyfes 2. Roedd cynnwys y gweithdai hyn wedi'i deilwra i gyd-fynd â'r testun, ond yn greiddiol i bob un roedd cyflwyniad gan swyddogion a thrafodaethau a gweithgareddau grŵp. Cafodd y sylwadau a'r allbynnau o'r digwyddiadau hyn eu hystyried ochr yn ochr â'r ymatebion ysgrifenedig ffurfiol er mwyn goleuo'r rheoliadau a'r cod ymarfer terfynol mewn perthynas â Rhan 4 a Rhan 5.

Hefyd, cynhaliwyd gweithdy a oedd wedi'i neilltuo ar gyfer swyddogion asesu ariannol a chodi ffioedd awdurdodau lleol yn Llandrindod ar 16 Gorffennaf 2015. Roedd y digwyddiad hwn yn rhoi'r cyfle i'r rhai a oedd yn bresennol gael dealltwriaeth well am y fframwaith asesu ariannol a chodi ffioedd newydd a gynigir o dan y Ddeddf, i drafod materion cyffredin ac i godi pryderon a oedd yn ymwneud yn benodol â gweithgarwch codi ffioedd awdurdodau o ddydd i ddydd.



## **Ymatebion i'r ymgynghoriad**

Cafwyd cyfanswm o 61 o ymatebion. Roedd rhai o'r ymatebion, neu rannau o ymatebion, ar ffurf naratif yn unig ac nid oeddent yn ymateb i'r cwestiynau a ofynnwyd yn y ddogfen ymgynghori. Felly nid yw'r rhain yn ymddangos yn y crynodeb o'r ymatebion a ganlyn. Mae'r ymatebion eraill i gyd wedi cael ystyriaeth gyfartal o ran y sylwadau a gafwyd. Ceir rhestr o ymatebwyr yn Atodiad A a cheir crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ynghyd â dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r rhain, yn Adran 2. Mae'r adran honno hefyd yn cynnwys ymateb Llywodraeth Cymru i'r rhain.

## Adran 2 – Ymateb i Gwestiynau'r Ymgynghoriad

### Cwestiwn 1:

	<b>1. Ydych chi'n cytuno bod y rheoliadau a'r cod ymarfer yn darparu fframwaith eglur ar gyfer asesiadau ariannol o dderbynyddion gofal a chymorth a chodi ffioedd arnynt?</b>				
	Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb roi tic
<b>Cyfanswm -</b>	5	26	13	2	14

#### **Crynodeb o'r ymatebion**

Mynegwyd ystod o safbwyntiau am agweddau amrywiol ar godi ffioedd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, nid dim ond atebion i'r cwestiwn a ofynnwyd. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod y fframwaith yn eglur ac yn darparu sylfaen i gymhwyso'r trefniadau ar gyfer asesiadau ariannol a chodi ffioedd.

Y safbwyntiau cyffredinol a fynegwyd oedd:

Ni ddylid codi ffioedd am wasanaethau ataliol gan y gallai hyn greu rhwystr i fynediad at wasanaethau, yn enwedig ar gyfer y rhai â nam ar y synhwyrau neu anabledd dysgu.

Er bod rhai'n anghytuno â'r cynnig i beidio â chodi ffioedd ar rieni/gwarcheidwaid am y gofal a'r cymorth y mae ar eu plentyn eu hangen, roedd cefnogaeth i hyn ar y cyfan.

Dylai gwasanaethau ailalluogi gael eu darparu'n rhad ac am ddim neu o leiaf fe ddylai'r polisi "gofal cartref am ddim am hyd at chwe wythnos yn dilyn arhosiad yn yr ysbyty" gael ei ddiwygio fel ei fod yn berthnasol i wasanaethau ailalluogi yn lle hynny. Byddai hyn o gymorth i sicrhau ffocws ehangach ar atal a chymorth i fyw yn annibynnol.

Mynegwyd rhai safbwyntiau na ddylid codi ffioedd ar ofalwyr am y cymorth y maent yn ei gael o ystyried y rôl hanfodol y maent yn ei darparu.

Gwnaed awgrymiadau y dylai awdurdodau lleol gael eu hannog i gydweithio i lunio polisiâu codi ffioedd er mwyn helpu i leihau anghysonderau a hybu polisiâu cyffredin.

Gwnaed awgrymiadau y dylid ymestyn y cod i gynnwys sefyllfaoedd lle mae derbynnydd gofal a chymorth yn gwneud penderfyniad bwriadol i beidio â rhannu gwybodaeth ariannol sy'n ofynnol fel rhan o'i asesiad ariannol. Gwnaed ceisiadau hefyd am gynnwys enghreifftiau ac astudiaethau achos yn y cod i helpu i egluro'i ofynion a'u rhoi ar waith ac ymdrin â rhai senarios penodol.

I gael gwared ar anghysondeb, gofynnwyd am eglurhad pa un a ddylai ffioedd am ofal preswyl seibiant byrdymor gael eu codi ar sail y trefniadau ar gyfer

codi ffioedd am ofal dibreswyl ynteu'r rhai ar gyfer codi ffioedd am ofal preswyl, yn hytrach na gadael i awdurdodau lleol benderfynu hyn.

Awgrymwyd na ddylai newid yn amgylchiadau ariannol person gael ei gyfrif yn rheswm dros ofyn am adolygiad o benderfyniad ynghylch codi ffioedd. Yn hytrach, dylid ymdrin â hyn trwy drefn lle mae hysbysiad gan yr unigolyn yn sbarduno angen am asesiad ariannol newydd.

Gwnaed ceisiadau i beidio â gweithredu'r cynnig arfaethedig i ymestyn y gofyniad i ddarparu datganiad o ffioedd cyn y gellid dechrau codi ffioedd i ofal preswyl gan y gallai hyn ddwyn goblygiadau ariannol sylweddol ar gyfer awdurdodau lleol.

Codwyd nifer o faterion technegol mewn perthynas â'r trefniadau asesu ariannol a oedd wedi'u nodi yn y rheoliadau a'r cod. Roedd y rhain yn cynnwys cyfrifo'r "ffi safonol" mewn gofal preswyl, cymhwyso'r diystiriadau ar gyfer cynilion, asesu pobl sengl a chyplau, y dull o drin Credydau Treth Gwaith o ystyried bod pob math o enillion yn cael eu diystyru'n llawn, pa un a ddylai unrhyw ffioedd yn ôl cyfradd unffurf a delir gan berson gael eu cynnwys o fewn yr uchafswm ffi wythnosol a chymhwyso'r diystiriad eiddo wrth godi am ofal preswyl mewn perthynas â pherthnasau cymhwysol.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno bod y rheoliadau a'r cod ymarfer yn darparu fframwaith eglur ar gyfer asesiadau ariannol a chodi ffioedd. Roedd yr ymatebwyr ar y cyfan yn croesawu'r fframwaith gan ei fod yn gwneud y newidiadau lleiaf yr oedd eu hangen i gyflwyno trefniadau asesu ariannol a chodi ffioedd dan y Ddeddf gan gyflwyno rhai diwygiadau allweddol i'r rhain ar yr un pryd.

O ganlyniad i'r ymatebion bydd y newidiadau canlynol yn cael eu gwneud i'r rheoliadau a'r cod:

- mae'r polisi "gofal cartref am ddim am hyd at 6 wythnos" yn cael ei ddiwygio fel mai polisi "gofal ailalluogi am hyd at 6 wythnos" fydd hwn, i gyd-fynd ag arfer presennol;
- mae atodiad ychwanegol wrth y cod yn cael ei ddarparu i gynnwys adfer dyledion a sefyllfa lle mae person yn ei amddifadu ei hun o gyfalaf neu incwm i leihau'r angen i dalu ffi, neu ei waredu'n gyfan gwbl;
- trwy'r cod, bydd awdurdodau lleol yn cael eu hannog i lunio'u polisiâu codi ffioedd ar y cyd ag awdurdodau cyfagos;
- bydd y rheoliadau a'r cod yn fwy eglur o ran y trefniadau codi ffioedd a ddylai fod yn gymwys ar gyfer arhosiad seibiant preswyl byrdymor;
- bydd y sefyllfaoedd lle gall person geisio adolygiad o ffi neu benderfyniad ynghylch codi ffioedd yn cael eu diweddarau er mwyn darparu ar gyfer newid yn amgylchiadau ariannol person;
- bydd yr adeg pan ellir codi ffi ar berson am y gofal a'r cymorth a roddir iddo'n cael ei diweddarau i ddarparu ar gyfer yr amser y bydd

yn ei gymryd i gynnal asesiad ariannol mewn perthynas â gofal preswyl. Diben hyn yw mynd i'r afael â phryder awdurdodau lleol ynghylch goblygiadau ariannol hyn;

- mae ystod o newidiadau technegol yn cael eu gwneud i'r asesiad ariannol er mwyn ymateb i bryderon ynghylch asesu pobl sengl a chyplau, y dull o drin Credyd Treth Gwaith, y dull o drin diystyriadau cynilion a'r diystyriad eiddo mewn gofal preswyl ar gyfer perthnasau cymhwysol;
- hefyd bydd ffioedd yn ôl cyfradd unffurf yn parhau i gael eu pennu, fel y maent ar hyn o bryd, y tu allan i'r trefniadau ar gyfer yr uchafswm ffi wythnosol mewn perthynas â gofal a chymorth dibreswyl.

O ran y ceisiadau y dylai rhai mathau o ofal a chymorth gael eu darparu'n rhad ac am ddim, neu y dylai rhai mathau o dderbynyddion gael eu gofal a'u cymorth yn rhad ac am ddim, nid yw'r Gweinidog wedi cael ei ddarbwylo y dylai'r mathau presennol o ofal am ddim, neu'r dosbarthiadau presennol o bobl sy'n cael gofal am ddim, gael eu hystyriaeth y tu hwnt i'r trefniadau presennol. Mae unigolion allweddol eisoes yn cael gofal am ddim a mathau allweddol o ofal eisoes yn cael eu darparu'n rhad ac am ddim, ac nid yw'r Gweinidog o'r farn y dylid ymestyn y rhain. Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried y bydd y trefniadau presennol ar gyfer asesiadau ariannol a'r mesurau diogelu y maent eisoes yn eu cynnwys yn golygu y bydd yr holl bobl ar incwm isel yn cael eu gofal a'u cymorth yn rhad ac am ddim.

## Cwestiwn 2:

	<b>2. Ydych chi'n cytuno bod y trefniadau ar gyfer asesiadau ariannol yn nodi'r mathau perthnasol o incwm a chyfalaf gan dderbynyddion gofal a chymorth y dylid eu cymryd i ystyriaeth?</b>				
	Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb roi tic
<b>Cyfanswm -</b>	6	27	7	1	19

### **Crynodeb o'r ymatebion**

Roedd consensws bod y trefniadau ar gyfer asesiadau ariannol yn cynnwys pob math perthnasol o incwm a chyfalaf.

Y safbwyntiau cyffredinol a fynegwyd oedd:

Roedd ceisiadau am fwy o eglurder o ran pa elfennau o'r Lwfans Gwariant sy'n Gysylltiedig ag Anabledd (DRE) ddylai gael eu cymryd i ystyriaeth at ddibenion codi ffioedd.

Gofynnwyd am eglurhad mewn perthynas â nifer o faterion technegol gan gynnwys: y dull o drin Credyd Treth Gwaith; bondiau buddsoddi; credydau cynilion; cronfeydd ymddiriedolaeth; asesiadau o gyplau/pobl sengl; taliadau yn ôl cyfradd unffurf; gofal cartref am ddim am hyd at chwe wythnos;

diystyriadau eiddo a'r Gronfa Byw'n Annibynnol.

Mynegwyd pryderon ynghylch codi am ofal preswyl a'r anallu i ôl-ddyddio ffi o ystyried yr amser y byddai'n ei gymryd i gynnal asesiad ariannol a darparu datganiad o ffi.

Gwnaed ceisiadau i beidio â chynnwys lwfans gofalwyr a'r premiwm gofalwyr yn y cyfrifiad o'r Isafswm Incwm mewn perthynas â chodi am ofal a chymorth dibreswyl.

Cyflwynwyd achos dros ddiystyriad llawn ar gyfer taliadau a wneir dan Gynllun Pensiwn Anabledd Rhyfel y Lluoedd Arfog.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno bod y trefniadau ar gyfer asesiadau ariannol yn nodi'r mathau perthnasol o incwm a chyfalaf mewn perthynas â chodi ffioedd. Mae'r newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud:

- bydd y disgrifiad o'r gwariant sy'n gysylltiedig ag anabledd y dylid ei gymryd i ystyriaeth mewn asesiad ariannol yn cael ei wneud yn fwy eglur;
- fel a nodir yn yr ymateb i Gwestiwn 1, bydd ystod o ddiweddariadau technegol i'r trefniadau'n cael eu gwneud;
- hefyd fel a nodir uchod, bydd yr adeg pan ellir codi ffi ar berson am y gofal a'r cymorth a roddir iddo'n cael ei diweddaru i ddarparu ar gyfer yr amser y bydd yn ei gymryd i gynnal asesiad ariannol mewn perthynas â gofal preswyl;
- bydd cynnydd yn y diystyriad ar gyfer pensiynau anabledd rhyfel yn cael ei gyflwyno.

Nid oes bwriad i gyflwyno newid yn yr Isafswm Incwm mewn perthynas â chodi ar ofalwyr am ofal a chymorth dibreswyl, o ystyried bod peidio â chynnwys eu lwfansau yn y swm hwn yn cynyddu'r incwm y bydd yn rhaid ei gymryd i ystyriaeth ar eu cyfer wrth bennu unrhyw ffi ac felly, o bosibl, yn cynyddu'r ffioedd i ofalwyr.

### **Cwestiwn 3:**

	<b>3. Ydych chi'n cytuno bod y trefniadau ar gyfer dyfarnu ffi yn taro cydbwysedd priodol rhwng lleihau i'r eithaf yr effaith ar dderbynyddion gofal a chymorth â modd ariannol isel, a chaniatáu i awdurdodau lleol gael cyfraniad tuag at gost y ddarpariaeth i helpu i sicrhau ei bod yn parhau i gael ei darparu?</b>				
	Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb roi tic
<b>Cyfanswm -</b>	1	23	7	11	18

## **Crynodeb o'r ymatebion**

Ar y cyfan roedd ymatebwyr yn teimlo bod y trefniadau'n taro cydbwysedd rhwng diogelu'r rhai ar incwm isel a galluogi awdurdodau lleol i gael cyfraniad rhesymol tuag at gost y gofal a chymorth a roddir i berson.

Y sylwadau unigol a wnaed oedd:

Cyflwynwyd safbwyntiau a oedd yn awgrymu bod yr Isafswm Incwm a oedd yn berthnasol i godi ffi am ofal a chymorth preswyl a dibreswyl yn rhy isel ar gyfer pobl o oedran gweithio.

Roedd galwadau am gynyddu'r Isafswm Incwm ac am bennu uchafswm o ran y ffi er mwyn diogelu'r rhai ar incwm is ond dywedwyd hefyd y dylid parhau i godi ffi uwch ar y rhai a oedd yn gallu fforddio talu.

Gwnaed ceisiadau hefyd am gynyddu'r Isafswm Incwm i lefel benodedig o £550 y mis i dalu am y cynnydd mewn costau sy'n deillio o fyw gydag anabledd.

Nodwyd nifer o faterion technegol gan gynnwys: adolygu penderfyniadau ynghylch codi ffioedd mewn gofal preswyl; ôl-ddyddio ffioedd; ffioedd yn ôl cyfraddau unffurf; diystyriadau eiddo; taliadau morgais; ac asesi cyplau/pobl sengl.

Mynegwyd safbwyntiau fod uchafswm y ffi'n rhy isel ar y lefel bresennol o £60 yr wythnos.

Gwnaed awgrymiadau y dylai'r rheswm pam fo awdurdodau lleol yn codi ffi am ofal a chymorth gael ei egluro fel rhan o'r ymgyrch cyhoedduswydd fel bod y cyhoedd yn gwybod yn iawn pam a sut y gellid codi ffioedd arnynt am gael mynediad at ofal a chymorth (a'u bod yn gallu paratoi ar gyfer hynny).

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo na ddylid byth codi ffi am unrhyw fath o ofal a chymorth, ni waeth beth fo amgylchiadau a moddion ariannol person.

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno bod y trefniadau ar gyfer asesiadau ariannol a chodi ffioedd yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng diogelu'r rhai ar incwm isel a chasglu cyfraniadau rhesymol tuag at gost gofal. Felly nid ydym yn bwriadu, ac nid oes angen, gwneud unrhyw newid sylweddol i'r trefniadau.

Cafodd rhai o'r sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn eu gwneud mewn ymateb i Gwestiwn 1 a 2. Yn unol â hynny, mae'r cam gweithredu a nodir yn ymateb Llywodraeth Cymru i'r cwestiynau hynny yr un mor berthnasol yma.

Mewn perthynas â'r Isafswm Incwm, roedd safbwyntiau croes i'w gilydd o ran ei lefel yn y dyfodol. Ar ôl ystyried, mae'r Gweinidog wedi penderfynu peidio â newid y lefel bresennol o gofio bod y lefel honno wedi'i phennu fel ei bod

eisoes yn rhoi diogeliad ariannol rhesymol i'r rhai a gaiff eu hasesu'n ariannol ar gyfer ffi. Byddai cynyddu'r lefel hon yn lleihau'r modd ariannol y gellir ei gymryd i ystyriaeth ar gyfer codi ffioedd a byddai felly'n dwyn goblygiadau ariannol ar gyfer awdurdodau lleol.

Mewn perthynas â'r uchafswm ffi wythnosol, mae cynyddu hwn yn un o'r opsiynau sydd dan ystyriaeth fel rhan o'r camau mwy hirdymor i ddiwygio'r trefniadau ar gyfer talu am ofal y mae'r Gweinidog yn eu hystyried. Bwriedir archwilio'r opsiynau hynny ymhellach felly byddai'n gynamserol cynyddu'r lefel ar hyn o bryd.

Bydd yr ymgyrch cenedlaethol i hysbysu'r cyhoedd ynghylch y Ddeddf a'i goblygiadau'n cyfeirio at yr asesiad ariannol a'r agweddau sy'n ymwneud â chodi ffioedd.

#### Cwestiwn 4:

	<b>4. Ydych chi'n cytuno bod y trefniadau o ran dewis o lety ar gyfer y rhai sy'n mynd i mewn i ofal preswyl yn rhoi dewis ychwanegol iddynt dros eu llety?</b>				
	Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb roi tic
<b>Cyfanswm -</b>	5	27	4	1	23

#### **Crynodeb o'r ymatebion**

Gan fod y trefniadau o ran dewis o lety a nodir yn y Ddeddf a'r rheoliadau a'r cod ymarfer arfaethedig yn cymhwyso trefniadau tebyg i'r rhai sydd eisoes yn bodoli, nifer gymharol fach o sylwadau a ddenwyd gan y rhan hon o'r ymgynghoriad. Ar y cyfan roedd y sylwadau a wnaed am y trefniadau arfaethedig yn gadarnhaol.

Er y gallai'r trefniadau arfaethedig gynyddu'r dewis ar gyfer rhai pobl, awgrymodd rhai ymatebwyr mai dim ond lle gallai trydydd parti fforddio i dalu'r gost ychwanegol y byddai hyn yn bosibl. Roedd ymatebwyr yn ystyried bod fforddiadwyedd yn cyfyngu ar y dewis i drigolion sy'n cael cymorth gan awdurdod lleol.

Gwnaed cais am eglurhad gwell o allu trydydd parti i dalu taliad ychwanegol lle'r oedd dewis yn gwneud hyn yn ofynnol. Mynegwyd pryder ynghylch eu gallu i gynnal taliadau a lle gallent fethu talu taliadau o'r fath o bosibl.

Gofynnwyd am eglurhad o delerau'r hysbysiad a fydd yn cael ei roi i berson lle nad yw'n bosibl cydymffurfio â'i ddewis.

Roedd rhai ymatebwyr yn ystyried y gallai'r dewis fod yn gyfyngedig i'r rhai ag anghenion arbenigol gan y byddai'r cartrefi gofal sy'n addas i ddarparu ar gyfer unigolion â'r rhain yn gyfyngedig. Hefyd, mynegodd rhai ymatebwyr bryder ynghylch cynnydd posibl yn lefel disgwyliaidau pobl a'r problemau y

gallai awdurdodau ddod ar eu traws lle na ellid cydymffurfio â'u dewis. Wedi dweud hynny, roedd ymatebwyr yn ystyried y dylai fod dewis gan bobl bob amser ac na ddylai'r penderfyniad gael ei adael i awdurdodau lleol.

Awgrymwyd fod angen sicrhau bod taliadau ychwanegol yn cael eu cymhwyso dim ond dan amgylchiadau gwirioneddol sy'n ateb y gofynion a nodir yn y rheoliadau a'r cod.

Roedd ymatebwyr yn croesawu'r ffaith y byddai'r cod arfaethedig yn ymestyn y dewis trwy ganiatáu i 'barti cyntaf' (y person mewn cartref gofal) dalu tâl ychwanegol dan rai amgylchiadau.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Gan fod y trefniadau o ran dewis o lety'n debyg i'r rhai sy'n bodoli ar hyn o bryd, a bod cytundeb eang y dylai'r rhai sydd mewn gofal preswyl fod â dewis dros eu cartref, ychydig o sylwadau perthnasol a gafwyd am yr agwedd hon ar yr ymgynghoriad.

Mae'r rheoliadau a'r cod wedi cael eu cryfhau i ganiatáu i awdurdodau lleol fod wedi'u hargyhoeddi bod person sy'n talu cost ychwanegol yn gallu talu a chynnal taliadau tra pery lleoliad person mewn cartref gofal. Yn awr, mae'r rheoliadau hefyd yn nodi'r trefniadau sy'n berthnasol os bydd trefniant yn methu.

Yn awr mae'r rheoliadau'n cynnwys gofynion penodol y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu dilyn wrth hysbysu person na ellir cydymffurfio â'i ddewis o lety.

Mae gwybodaeth fwy eglur wedi cael ei hychwanegu hefyd at y cod ynghylch ymdrin â sefyllfaoedd lle mae ar berson angen lleoliad dros dro mewn cartref gofal tra'i fod yn disgwyl i leoliad fod ar gael yn y cartref gofal a ffafir ganddo.

### **Cwestiwn 5:**

	<b>5. Ydych chi'n cytuno y bydd y trefniadau diwygiedig o ran taliadau gohiriedig ar gyfer y rhai sy'n mynd i mewn i ofal preswyl gydag eiddo yn eu galluogi i fod â dewis gwell dros amseriad unrhyw weithred i'w werthu i dalu am ofal o'r fath?</b>				
	Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb roi tic
<b>Cyfanswm -</b>	6	23	4	2	25

### **Crynodeb o'r ymatebion**

Ar y cyfan, cafodd y trefniadau arfaethedig o ran taliadau gohiriedig dderbyniad da ac roedd ymatebwyr yn meddwl ei bod yn ddarpariaeth gadarnhaol a defnyddiol. Roedd nifer o ymatebwyr yn ystyried bod trefniadau



o'r fath yn cynnig dewis, hyblygrwydd ac amser i wneud penderfyniadau ynghylch gwerthu eiddo ar adeg a allai fod yn un emosiynol ac yn llawn straen.

Mynegwyd safbwyntiau y dylai'r rheoliadau a'r cod gael eu hymestyn i ymdrin â sefyllfaoedd lle mae person yn mynd i mewn i gartref gofal ac yn meddu ar eiddo cymwys ond ei fod wedi gwrthod taliad gohiriedig. Roedd hyn i'w weld yn broblem i rai awdurdodau lleol.

Roedd rhai ymatebwyr yn ystyried y byddai codi llog ar daliad gohiriedig yn atal rhai pobl rhag ymrwymo i drefniant o'r fath. Fodd bynnag, mynegodd rhai awdurdodau lleol gefnogaeth i'r gallu i gymhwyso llog i daliadau gohiriedig, gan eu gwneud yn fwy fforddiadwy i'w gweithredu.

Er bod nifer o ymatebwyr yn cefnogi taliadau gohiriedig, roedd teimlad mai cyfyngedig yw eu manteision i unigolion o ystyried bod y rhai sy'n mynd i mewn i ofal preswyl yn aml yn bobl eiddil oedrannus na fyddent o bosibl yn fodlon nac yn gallu gwerthfawrogi trefniadau o'r fath nac ymrwymo iddynt.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Ni fydd trefniadau o ran taliadau gohiriedig yn addas i bawb, naill ai oherwydd eu sefyllfa neu am eu bod yn gyndyn o ymrwymo i'r rhain. Roedd cefnogaeth ar y cyfan i'r trefniadau a nodir yn y rheoliadau a'r cod gyda dim ond rhai pwyntiau o fanylder yn cael eu codi.

Bydd adran newydd yn cael ei hychwanegu at y cod (Atodiad F – Adfer Dyledion ac Amddifadu o Asedau) sy'n cynnwys gallu awdurdodau lleol i adennill ffi lle nad yw hon wedi cael ei thalu. Gellir cymhwyso hyn mewn sefyllfaoedd lle nad yw person ag eiddo cymwys wedi gwaredu'r eiddo hwnnw, nac wedi ymrwymo i drefniant o ran taliadau gohiriedig, a'i fod felly'n methu â thalu ei ffi ac yn cronni dyled mewn ffioedd am leoliad mewn cartref gofal. Mewn achosion o'r fath gellir gosod pridiant tir ar yr eiddo i sicrhau bod y ffi hon yn cael ei thalu.

Er mai cymysg oedd y farn am allu awdurdod lleol i godi llog ar symiau gohiriedig, ystyrir bod hyn yn briodol er mwyn gwneud cytundebau o'r fath yn fforddiadwy i awdurdodau. Er mwyn sicrhau bod llog o'r fath a godir yn briodol, mae'r rheoliadau'n cyfyngu ar y lefel y gellir ei chodi.

### **Cwestiwn 6:**

**6. Ydych chi'n cytuno bod y trefniadau gwahanol i awdurdodau lleol godi ffioedd am wasanaethau ataliol a chynhorthwy yn taro cydbwysedd priodol rhwng sicrhau bod pobl yn manteisio ar y rhain a galluogi awdurdodau i adennill rhai o gostau darparu neu drefnu'r rhain i sicrhau eu bod yn parhau?**

	Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb roi tic
<b>Cyfanswm -</b>	2	10	16	13	19

### **Crynodeb o'r ymatebion**

Roedd nifer o ymatebwyr yn anfodlon ar y trefniadau newydd arfaethedig ar gyfer codi am ofal a chymorth. Er y gellir codi am ofal a chymorth ar hyn o bryd, a bod hynny'n digwydd, roedd llawer yn meddwl bod codi am wasanaethau ataliol yn groes i gyfeiriad polisi cyffredinol y Ddeddf ac y gallai droi pobl oddi wrth eu bwriad i geisio cymorth o'r fath. Ar y llaw arall, mynegodd rhai ymatebwyr eu cefnogaeth i drefniadau o'r fath ar gyfer codi ffioedd.

Lle'r oedd ffioedd yn cael eu codi, gofynnwyd am ganllawiau ynghylch dulliau o gasglu ffioedd lle darperir gwasanaethau ataliol neu gynhorthwy gan drydydd parti dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth gydag awdurdod lleol.

Roedd rhai ymatebwyr yn ystyried y byddai codi ffioedd am wasanaethau ataliol (gan gynnwys adsefydlu) yn atal rhai grwpiau (yn enwedig pobl â nam ar eu golwg neu nam ar y synhwyrau) rhag ceisio mynediad at gymorth. Roedd teimlad bod llawer o bobl â nam ar y synhwyrau yn gyndyn ar hyn o bryd o ddechrau dilyn rhaglen adsefydlu a hwythau wedi dod i'r casgliad na fyddai eu sefyllfa'n gwella trwy gymorth o'r fath. Gallai hyn gael ei waethygu pe bai ffi o'r fath yn cael ei chymhwyso. Roedd ymatebwyr yn ystyried hefyd bod risg y byddai'r rhai sy'n cael gwasanaethau ataliol yn rhad ac am ddim ar hyn o bryd yn rhoi'r gorau i fanteisio ar y ddarpariaeth fuddiol hon pe bai ffi'n cael ei chymhwyso.

Awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai codi ffioedd am wasanaethau ataliol a chynhorthwy arwain at alw cynyddol ar y GIG lle'r oedd darpariaethau o'r fath yn rhad ac am ddim.

Mynegodd rhai ymatebwyr bryder ynghylch effaith gronol ffioedd yn ôl cyfradd unffurf lle nad oes asesiad ariannol wedi cael ei gynnal. Heb asesiad ariannol gallai fod yn anodd gwybod am ba wasanaethau ataliol yr oedd ffioedd yn cael eu codi ar berson a'r swm gwirioneddol yr oedd yn ei dalu.

Roedd nifer o ymatebwyr yn ystyried bod y polisi "gofal cartref am ddim ar ôl arhosiad yn yr ysbyty" wedi dyddio ac y dylid ei ddiwygio fel ei fod yn hytrach yn cynnwys ailalluogi, sef yr arfer ar hyn o bryd.

Roedd rhai awdurdodau lleol o'r farn na ddylai ffioedd yn ôl cyfradd unffurf gael eu cynnwys yn y cyfrifiad o'r "byffer" a'r lwfans gwariant sy'n gysylltiedig ag anabledd wrth godi am ofal a chymorth amhreswyl oni bai yr aethpwyd y tu hwnt i'r lwfans gwariant sy'n gysylltiedig ag anabledd o 10%. Ni ddylent gael eu cynnwys yn y cyfrifiad o'r uchafswm ffi wythnosol ychwaith. Gallai eu cynnwys yn y ddau fod yn anghymhelliad i ddarparu gwasanaethau ataliol, yn ogytal â pheri i awdurdodau lleol golli incwm.

Awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai codi am wasanaethau ataliol fod yn gyfyngedig i ddull sy'n seiliedig ar ffi "un lefel".

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Hwn oedd y cwestiwn ymgynghori a gododd y mwyaf o bryderon mewn ymateb iddo. Er bod codi ffioedd am wasanaethau ataliol a chynhorthwy'n gallu digwydd, a'i fod yn digwydd, yn barod, roedd llawer yn ystyried bod hyn yn cael ei gyflwyno am y tro cyntaf tra bo'r cynnig yn set wahanol o drefniadau sy'n berthnasol i godi'r ffioedd hyn.

Roedd pryderon ynghylch y trefniadau arfaethedig, o ran yr agweddau ymarferol ar y rhain a'u heffaith ar y rhai y byddai ffioedd yn cael eu codi arnynt yn y ffordd yma. O ganlyniad bydd y ffordd newydd y gallai ffioedd yn ôl cyfradd unffurf gael eu codi'n cael ei thynnu allan o'r rheoliadau a'r cod. Yn hytrach, bydd y rheoliadau a'r cod yn syml yr un fath â'r trefniadau presennol ar gyfer y math yma o ffioedd sydd wedi bod yn berthnasol ers 2011 dan reoliadau a wnaed dan Fesur Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010.

Hefyd, mewn ymateb i'r adborth yn yr ymgynghoriad bydd y rheoliadau a'r cod yn cael eu diwygio i ddisodli'r polisi "gofal cartref am ddim am 6 wythnos" â pholisi "gwasanaeth ailalluogi am ddim am hyd at 6 wythnos" fel bod y polisi'n cydweddu'n well â'r agenda ailalluogi ac adsefydlu ac yn cyd-fynd ag arfer presennol.

Yn olaf, bydd y rheoliadau a'r cod yn cael eu diwygio i fod yr un fath â'r trefniadau presennol lle nad yw'r ffi yn ôl cyfradd unffurf yn cael ei chynnwys yn y cyfrifiad o'r uchafswm ffi wythnosol, y byffer a'r lwfans gwariant sy'n gysylltiedig ag anabledd, yn hytrach na chyflwyno trefniadau sy'n ei chynnwys o fewn y rhain, sef yr hyn a gynigiwyd.

### **Cwestiwn 7:**

**Ydych chi'n credu y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig? Os felly, pa rai a pham/pam ddim?**

#### **Crynodeb o'r ymatebion**

Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo y na ddylai fod angen i berson ddefnyddio cynilion na gwerthu ei eiddo i dalu am ofal a chymorth.

Roedd trefniadau o ran taliadau gohiriedig yn cael eu croesawu gan y gallent gael gwared ar rywfaent o'r pwysau ar y rhai yr oedd eu heiddo'n rhan o'u cyfalaf cymwys wrth godi ffioedd am ofal preswyl.

Roedd y cynnig i ddarparu'r lwfans gwariant sy'n gysylltiedig ag anabledd wrth godi ffioedd am ofal a chymorth dibreswyl yn cael ei groesawu'n fawr er bod siom nad oedd lefel uwch wedi'i phennu ar ei gyfer. Roedd eraill yn meddwl bod cadw diogeliad ar ffurf Isafswm Incwm a lwfans gwariant sy'n gysylltiedig ag anabledd yn hanfodol ac y dylid cymhwyso'r rhain yn gyfartal ar draws

grwpiau oedran.

Mynegodd rhai ymatebwyr farn y byddai effaith niwtral ar y cyfan ar nodweddion gwarchoddedig, tra bo rhai'n mynegi'r farn y byddai cadw'r lwfans gwariant sy'n gysylltiedig ag anabledd a'r byffer wrth godi am ofal a chymorth dibreswyl yn cael effaith gadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig.

Roedd rhai'n meddwl na fyddai'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol ac yn ystyried bod unrhyw ffioedd a godir yn gwahaniaethu yn erbyn y rhai ac arnynt angen gofal a chymorth yn uniongyrchol o ganlyniad i'w nam. Roedd eraill o'r farn bod yr effaith hon yn niwtral o ystyried nad yw'r fframwaith arfaethedig ar gyfer codi ffioedd yn annhebyg iawn i'r fframwaith presennol.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'n amlwg y bydd y cynigion yn cael effaith ar y rhai â nodweddion gwarchoddedig. O ystyried bod yr hyn sydd yn yr arfaeth yn debyg i'r hyn sydd eisoes yn bodoli, dylai'r effaith hon fod yn debyg i'r effaith ar hyn o bryd. Yr eithriad yn hyn o beth yw plant, lle bydd datgymhwyso'r gallu i godi ffi ar riant neu warcheidwad am y gofal a'r cymorth a roddir i'w blentyn yn cael effaith gadarnhaol sylweddol.

Er y gallai fod yn ofynnol i'r rhai â nodweddion gwarchoddedig dalu am eu gofal a chymorth, dim ond lle mae ganddynt y modd ariannol i wneud hynny y byddai hyn yn digwydd. Hefyd, bydd y mesurau diogelu ariannol sy'n berthnasol yn yr asesiad ariannol yn sicrhau bod pawb â modd ariannol isel yn cael eu gofal a'u cymorth naill ai am ffi isel neu heb orfod talu ffi. Bydd hyn yn digwydd gan gofio bod rhai budd-daliadau lles, elfennau o rai budd-daliadau lles neu rai taliadau eraill yn cael eu rhoi i bobl anabl a phobl hŷn gyda disgwyliad pendant y byddant yn cael eu defnyddio i dalu am y gofal a'r cymorth y mae eu hangen arnynt.

### **Cwestiwn 8:**

**Ydych chi'n credu y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig? Os felly, pa rai a pham/pam ddim?**

#### **Crynodeb o'r ymatebion**

Roedd rhai'n meddwl y byddai effaith negyddol gan y byddai rhai pobl o bosibl yn cael cymorth dim ond os ydynt yn gallu fforddio talu.

Roedd rhai'n meddwl na fyddai'r cynigion yn cael effaith negyddol na chadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig. Y rheswm dros hyn oedd bod y fframwaith newydd yn debyg i'r fframwaith presennol.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y gallai rhai grwpiau, megis pobl â nam ar y synhwyrâu neu bobl ag anabledd dysgu, gael eu cosbi'n ariannol, ac y gallai hynny arwain at lai o allu i gael mynediad at y cymorth y mae ei angen arnynt

ac a fyddai o fudd iddynt.

Roedd rhai'n meddwl ei bod yn anodd gwneud sylwadau am effeithiau negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig yn niffyg gwybodaeth am newidiadau arfaethedig i fudd-daliadau lles gan Lywodraeth y DU a sut y gallent effeithio ar yr un grwpiau. Fe wnaed awgrymiadau bod y cod yn cael ei ailystyried pan fo'r newidiadau i fudd-daliadau'n hysbys.

Roedd yn ymddangos bod rhai ymatebwyr yn meddwl bod newid mewn polisi wedi bod mewn perthynas ag asesu pobl sengl a chyplau gan felly gael gwared ar y gallu i gynnal asesiad ar y cyd lle gallai'r dull hwn brofi'n fwy ffafriol i'r bobl dan sylw.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mewn un ystyr gellid dadlau bod y cynigion yn cael effaith negyddol ar y rhai â nodwedd warchoddedig gan eu bod yn caniatáu cymryd arian ganddynt i dalu am eu gofal. Fodd bynnag, fel a amlygwyd yn yr ymateb i Gwestiwn 7, rhaid cofio bod rhai budd-daliadau lles, elfennau o rai budd-daliadau lles a rhai taliadau eraill yn cael eu rhoi i bobl anabl a phobl hŷn gyda disgwyliad pendant y byddant yn cael eu defnyddio i dalu am y gofal a'r cymorth y mae eu hangen arnynt.

Hefyd, o ystyried y tebygrwydd rhwng y fframwaith newydd arfaethedig a'r fframwaith presennol ar gyfer codi ffioedd ni ragwelir unrhyw effaith negyddol ychwanegol.

Er nad yw'n bosibl gwneud sylwadau am effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yn y dyfodol ar y bobl â nodweddion gwarchoddedig heb ragor o fanylion am y rhain, bydd y rheoliadau a'r cod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i asesu eu heffaith ac i wneud newidiadau lle y bo'n ofynnol.

Ni fu unrhyw newid yn y dull a ddefnyddir i gynnal asesiad ariannol o gwpl. Felly byddir yn dal i ganiatáu cynnal asesiad o'r person y bwriedir codi ffi arno naill ai fel person sengl neu fel rhan o gwpl, gan ddibynnu pa un sydd fwyaf ffafriol i'r person o safbwynt ariannol.

### **Cwestiwn 9:**

**Bydd ailgydbwysu'r system gofal a chymorth i gyflawni'r fframwaith cyfreithiol newydd yn galw am ailflaenoriaethu adnoddau. Beth yw'r camau allweddol sydd angen eu cymryd i gyflawni hyn?**

#### **Crynodeb o'r ymatebion**

Roedd rhai byrddau iechyd yn teimlo bod angen i gyllid ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol gael ei adolygu / ailystyried i sicrhau cydraddoldeb.

Roedd ymatebwyr yn ystyried ei bod yn hanfodol cynnal ymgyrch cenedlaethol yn y cyfryngau i godi ymwybyddiaeth o'r newidiadau eang y byddai'r Ddeddf yn eu hachosi i'r system gofal a chymorth.

Byddai angen i bolisïau presennol ar gyfer codi ffioedd gael eu diwygio ac i ganllawiau polisi newydd a gwybodaeth newydd am bolisïau gael eu llunio.

Roedd rhai'n ystyried bod angen trefniadau pontio i wneud y broses o weithredu'r newidiadau'n hydrin ac i'w rhoi ar waith dros amser. Amlygodd rhai awdurdodau lleol y byddai'n cymryd amser i sefydlu'r newidiadau hyn ac y byddai angen cyllid ysgogi i alluogi newidiadau i ddigwydd.

Roedd rhai'n teimlo bod y system gyfan sy'n cael ei sefydlu gan y Ddeddf yn galw am gyllid cychwynnol gan bartneriaid iechyd a gofal cymdeithasol i sefydlu byrddau a threfniadau partneriaeth rhanbarthol, gyda chyllid cynaliadwy parhaus i roi gofal a chymorth i bobl i sicrhau eu bod yn cyflawni eu canlyniadau llesiant.

Gwnaed awgrymiadau bod awdurdodau lleol yn cydweithio i lunio polisïau codi ffioedd er mwyn hybu mwy o gysondeb lle y bo'n briodol ac yn ddichonadwy.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Nid oedd llawer o'r sylwadau a ddarparwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn gysylltiedig ag asesiadau ariannol a chodi ffioedd ond roeddent yn sylwadau am oblygiadau ehangach yr holl set o newidiadau a gyflwynir gan y Ddeddf a'i heffaith ariannol. Gan hynny, mae'r rhain yn cael eu hystyried ar wahân fel rhan o'r broses o weithredu'r Ddeddf ar y cyfan.

O ran y rhai a oedd yn gysylltiedig ag asesiadau ariannol a chodi ffioedd, yn amlwg bydd y rheoliadau a'r cod yn golygu ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol ddiwygio'u polisïau codi ffioedd. Yn y cyd-destun hwn mae'r cod wedi cael ei ddiwygio i hybu cydweithio rhwng awdurdodau wrth lunio'u polisïau codi ffioedd er mwyn sicrhau mwy o gysondeb rhwng y rhain mewn ardaloedd lleol.

Hefyd, bwriedir cyflwyno darpariaethau pontio er mwyn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau roi'r fframwaith ariannol newydd ar waith o 6 Ebrill y flwyddyn nesaf gyda derbynyddion newydd gofal a chymorth yn unig. Bydd trefniadau'n cael eu cyflwyno i ganiatáu i awdurdodau gymhwyso'r fframwaith newydd i dderbynyddion presennol yn ystod 2016-17 wrth iddynt gael asesiad gofal wedi'i ddiweddarau dan y Ddeddf. Dim ond ar yr adeg honno y bydd hyn yn sbarduno'r gofyniad iddynt gael asesiad ariannol a gofyniad i godi ffi arnynt yn unol â'r ddeddfwriaeth newydd.

### **Cwestiwn 10:**

**Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â hwy'n benodol, defnyddiwch y lle gwag hwn i roi gwybod inni amdanynt.**

### **Crynodeb o'r ymatebion**

Er mwyn cynorthwyo'r gweithlu i'w deall, byddai'n ddefnyddiol atgyfnerthu prif elfennau'r fframwaith newydd, a'r newidiadau a'r gwahaniaethau allweddol o'i gymharu â'r fframwaith presennol.

Gwnaed ceisiadau am ymestyn y cod i gynnwys amddifadu o asedau.

Mynegwyd siom nad yw'r rheoliadau a'r cod yn cyfeirio at Gonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl.

Cododd rhai awdurdodau lleol bryderon ynghylch yr amser a gymer i gwblhau asesiadau ariannol ar gyfer gofal preswyl a'r effaith y byddai hyn yn ei chael ar eu gallu i ddechrau codi ffioedd.

Roedd rhai awdurdodau lleol yn ceisio eglurhad o'u gallu i osod pridiant tir ar eiddo lle mae pobl mewn dyled o ran ffioedd a bennwyd ar sail asesiadau.

Gwnaeth rhai awdurdodau lleol geisiadau am ailystyried y broses adolygu gan eu bod yn teimlo'i bod yn rhy ficrocrataidd a bod graddfeydd amser ar gyfer prosesu ceisiadau'n rhy afrealistig. Roedd barn hefyd y gallai atal rhai unigolion rhag datgelu eu sefyllfa ariannol.

Gofynnodd rhai awdurdodau lleol am eglurhad a ddylai ffioedd a godir am ofal seibiant fod yn seiliedig ar y drefn ar gyfer codi ffioedd dibreswyl ynteu'r drefn ar gyfer codi ffioedd preswyl.

Gofynnwyd am eglurhad ynghylch trin Credydau Treth Gwaith fel incwm cymwys neu incwm a ddiystyrir yn unol â'r driniaeth ar gyfer enillion.

Galwodd awdurdodau lleol am gael eu hysbysu'n gynnar ymlaen llaw ynghylch newidiadau blynyddol i'r fframwaith asesu ariannol a chodi ffioedd.

Gofynnodd rhai awdurdodau lleol am eglurhad o statws taliad gohiriedig sy'n bodoli ar yr adeg y daw'r ddeddfwriaeth newydd i rym.

Roedd ymatebwyr yn croesawu rolau awdurdodau lleol o ran rhoi cyngor a.y.b. i bobl ynghylch budd-daliadau lles.

Gwnaed rhai galwadau am gyfundrefnau ar wahân ar gyfer codi ffioedd am ofal a chymorth preswyl a dibreswyl.

Awgrymwyd, mewn achosion lle'r oedd diystyriad eiddo'n cael ei ystyried am fod perthynas cymhwysol yn byw yno, y dylai eglurhad o'r amgylchiadau penodol a hyd y preswyliaid gael eu cymryd i ystyriaeth.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Gwnaed ystod eang o sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Codwyd nifer o'r rhain mewn ymateb i gwestiynau cynharach a ofynnwyd ac maent felly wedi cael eu hateb yn gynharach yn y crynodeb hwn. Mewn ymateb i faterion newydd a godwyd:

- mae cynllun eang ar gyfer datblygu'r gweithlu ar waith dan arweiniad Cyngor Gofal Cymru i addysgu staff ynghylch gofynion y ddeddfwriaeth. Mae hyn yn cynnwys y gofynion mewn perthynas ag asesiadau ariannol a chodi ffioedd;
- Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl wedi'i gynnwys yn y cod ymarfer ynghylch rhan 2 o'r Ddeddf (Swyddogaethau Cyffredinol).
- mae adran 71 o'r Ddeddf eisoes yn darparu'r gallu i awdurdod lleol osod pridiant tir ar eiddo i sicrhau bod dyled yn cael ei hadfer.
- bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi cymaint o rybudd â phosibl i awdurdodau lleol ynghylch unrhyw newidiadau blynyddol i'r trefniadau codi ffioedd, a chan na fydd unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud yn awr tan fis Ebrill 2017 ar y cynharaf, mae eisoes wedi gwneud hyn ar gyfer 2016-17.
- bydd y darpariaethau pontio arfaethedig yn nodi y bydd cytundebau ar gyfer taliadau gohiriedig sy'n bodoli cyn 6 Ebrill y flwyddyn nesaf, pan ddaw'r Ddeddf i rym, yn parhau i fod mewn grym ar sail y trefniadau presennol. Bydd hyn yn parhau nes eu bod yn cael eu terfynu dan y trefniadau a nodir yn y cytundebau hynny.



## Atodiad A – Rhestr o ymatebwyr

Rhif	Cyfrinachol I / N		Enw	Sefydliad/Ar ran
1.		N	Dawn Price	Grŵp Canolfan Arddio Maesnewydd – Pobl yn Gyntaf Rhondda Cynon Taf
2.	I			
3.		N	Dawn Price	Grŵp Brynna Jones - Pobl yn Gyntaf Rhondda Cynon Taf
4.		N	Richard Williams	Action on hearing loss Cymru
5.		N	Dawn Price	Grŵp Pobl yn Gyntaf Taf Elái
6.	I			
7.		N	Gordon Hill	-
8.		N	Peter Jones	Cŵn Tywys Cymru
9.		N	Ruth Crowder	Cynghrair Ailalluogi Cymru
10.		N	Ruth Crowder	Coleg y Therapyddion Galwedigaethol
11.		N	Sarah Payne	Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy
12.		N	Phillipa Ford	Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi (CSP)
13.		N	Rhian Huws Williams	Cyngor Gofal Cymru
14.		N	Megan Walters	Cyngor Sir Ceredigion
15.		N	Ruth Northway a Sophie Hinksman	Grŵp Cynghori ar Anabledd Dysgu
16.		N	Joe Powell	Pobl yn Gyntaf Cymru
17.	I			
18.	I			
19.		N	Ellie Munro	Cymdeithas Clefyd Niwronau Motor
20.		N	Eunice Jones	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
21.		N	Gwasanaethau Cymdeithasol,	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

			Iechyd a Thai	
22.		N	DMJ Warner	-
23.	I			
24.		N	Susan Cooper	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
25.		N	Dave Street	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
26.		N	Tess Saunders	RNIB
27.		N	Catrin Edwards	SENSE
28.		N	Helen Evans	Fforwm Trydydd Sector Bae'r Gorllewin
29.		N	Helen Evans	Cyngor Gwirfoddol Sirol Castell-nedd Port Talbot
30.		N	Graeme Francis	Age Cymru
31.		N	Trevor Durham	-
32.	I			
33.		N	Cathrin Manning	Y Groes Goch Brydeinig
34.	I			
35.		N	Rachel Williams	Parkinsons UK
36.		N	Jean Davies	Cyngor Sir Penfro
37.		N	Siobhan Cuddeford	Cyngor Sir Ddinbych
38.		N	Stephanie O'Donnell	Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan
39.		N	Dominic Carter	Cymdeithas Gofal Cartref y Deyrnas Unedig
40.		N	Christy Jones	Cyngor Sir y Fflint
41.		N	Mark Saunders	Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gwent Fwyaf
42.		N	Sarah Rochira	Y Comisiynydd Pobl Hŷn
43.		N	Alice Southern	Cymdeithas Alzheimer's
44.		N	Rachel Gingell	Gofal a Thrwsio Cymru
45.	I			

46.		N	Rhian Davies	Coalition on Charging Cymru
47.		N	Dafydd Jones	Cyngor Gwynedd
48.		N	Sue Evans/Steve Thomas	Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol/CLILC
49.		N	Nichola Poole	Cynghorau Dinas Caerdydd a Bro Morgannwg
50.		N	Sara Harvey	Bae'r Gorllewin
51.		N	Kay Board	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
52.		N	Owen Williams	Fforwm Golwg Cymru
53.		N	Vin West	Grŵp Mynediad Arfon
54.		N	Cheryl Evans	BIP ABM
55.		N	Kieron Rees	Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru
56.		N	Matthew Kennedy	Cymorth Canser Macmillan
57.		N	Peter Evans	Y Lleng Brydeinig Frenhinol
58.		N	Mandi Glover	-
59.		N	Rhian Stangroom-Teel	Leonard Cheshire Disability
60.		N	Alice Owens	Cymdeithas y Cyfreithwyr
61.		N		Grŵp Penaethiaid Gwasanaethau Oedolion Cymru Gyfan (AWASH)